

## OWAIN ap CADWGAN (bu farw 1116), tywysog Powys

**Enw:** Owain ap Cadwgan

**Dyddiad marw:** 1116

**Partner:** Nest ferch Rhys ap Tewdwr

**Rhiant:** Cadwgan ab Bleddyn

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** tywysog Powys

**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Daeth i amlygrwydd (yn hytrach nag enwogrwydd) oblegid iddo ddwyn **Nest** i ffwrdd drwy drais yn 1109 a llofruddio, yn 1110, un o w r blaenllaw trefedigaeth y Fflemingiaid yn Nyfed, dau ddigwyddiad a barodd fod iddo elynion dros oes ymhlith y rhai y niweidiwyd hwy ganddo o'u plegid; yn wir, cymerwyd ei einioes oddi arno gan barti o Fflemingiaid a arweinid gan Gerald o Windsor, g r **Nest**, pan oedd ar gyrch ar ran y brenin yn erbyn cyd-dywysog yn Ne Cymru. Cyn hynny yr oedd (ar ôl dau gyfnod byr yn alltud yn Iwerddon) wedi dilyn ei dad, **Cadwgan ap Bleddyn**, fel ' brenin ' Powys (1111). Ar ddiwedd ei gyrch brenhinol i Gymru yn 1114 gofalodd Harri I, a fuasai bob amser yn bur amyneddgar tuag at Owain, ei gymryd gydag ef i Normandi lle y cafodd ei wneuthur yn farchog yn 1115. Ni adawodd Owain ddisgynyddion uniongyrchol.

### Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Owain ap Cadwgan](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2989299](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

